Deall Dyneiddiaeth

# BETH MAE DYNEIDDWYR YN EI WERTHFAWROGI?

**Nid wyf i'n credu mewn bywyd ar ôl marwolaeth, felly mae'r bywyd hwn yn werthfawr. Dylem ni ddarganfod yr hyn sy'n ein gwneud ni'n hapus a gwneud y gorau o'n bywydau. Dylem ni hefyd geisio helpu pobl eraill i wneud yr un peth.**



LAUREN



Rwy'n gwerthfawrogi **byd natur** o fy nghwmpas. Hebddo, ni fyddem yn goroesi a'r byd hwn yw'r unig un sydd gennym ni. Mae'n destun harddwch a **rhyfeddod**, a dylem ni ofalu amdano.

JENNY

I mi, un o'r pethau pwysicaf mewn bywyd yw ffurfio **cyfeillgarwch** a pherthynas dda ag eraill. Mae **cymuned** yn bwysig hefyd. Dylem ni gofio bod pob bod dynol ledled y byd yn rhan o un teulu estynedig.



GUY

Rydym ni i gyd yn rhan o **ddynoliaeth** ac rydym ni i gyd yn rhan o'r stori ddynol. Mae pob un ohonom ni wedi'n cysylltu dros amser â'n hynafiaid a byddwn ni wedi'n cysylltu hefyd â'n disgynyddion. Mae bodau dynol wedi gwneud **cynnydd** anhygoel yn ein dealltwriaeth o'r byd, ac ym maes iechyd, addysg a lles pobl. Dylem ni weithio tuag at helpu'r genhedlaeth nesaf i barhau â'r cynnydd hwnnw.



JESSICA

Dylem ni ddathlu ein **cyflawniadau deallusol a chreadigol** niferus, fel gwyddoniaeth, meddygaeth, technoleg, celf, cerddoriaeth a llenyddiaeth. Dylem ni geisio manteisio i'r eithaf ar ein doniau a'n galluoedd a bod yn optimistaidd ynghylch yr hyn y gallem ni ei gyflawni yn y dyfodol.



ALEX

**Rwy'n gwerthfawrogi ein chwilfrydedd a'n gallu i ofyn cwestiynau. Trwy feddwl yn ofalus am yr atebion a chwilio am dystiolaeth, rydym ni wedi gallu darganfod cymaint am ein byd a ni ein hunain, ac wedi gallu gwella ansawdd ein bywydau.**



IAN

I mi, **rhyddid** yw un o'r pethau pwysicaf mewn bywyd: y rhyddid i gredu'r hyn rwy'n dymuno ei gredu ac i fyw fy mywyd sut bynnag rwy'n dymuno'i wneud, ar yr amod nad wyf yn achosi niwed i eraill. Dylai pob bod dynol fod â'r rhyddid i lunio ei fywyd ei hun a gwneud i'w fywyd deimlo'n **ystyrlon**.



IMTIAZ

Mae dyneiddwyr yn credu mewn byd sy'n hyrwyddo **democratiaeth** a **hawliau dynol**. Rydym yn credu mewn pwysigrwydd cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Dylem ni weithio i wella ansawdd bywyd pob bod dynol. Dylem ni fod ag **empathi** tuag at eraill a'u trin fel y byddem ni'n dymuno cael ein trin. Dylem ni ofalu am ein gilydd.



ZENA

© HUMANISTS UK 2021